# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Dachwedd 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Peter Parker, Griffith Evan Thomas,

Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran y Cyngor gyda'r Cynghorydd Simon Jones ar golli ei annwyl frawd yn ddiweddar.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant.

3. Derbyn cofnodion 15 Hydref 2018:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r cynghorydd Bethan Lawton yn eilio'r cynnig.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101635 | £178.62 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101636 | £44.60 |
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol | 101637 | £180.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

5. EcoDdyfi - Trafod cynnwys Bryncrug ym Miosffer Dyfi:

**PENDERFYNIAD:** I ddatgan cefnogaeth y Cyngor i gynnwys ardal Bryncrug ym Miosffer Dyfi, sydd yn ardal sydd wedi ei gydnabod gan UNESCO.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Gwaith Trin Dŵr, Penybont, Brynceug (NP5/55/85D):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

7. Cylch yr Iaith - Polisi Twristiaeth Cyngor Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Biniau Ailgylchu papur/Cylchgronau:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd:

Ward Bro Dysynni i gynnwys Llanegryn, Bryncrug ac Abergynolwyn. Y ward presennol yn cynnwys Bryncrug ac Abergynolwyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

10. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol drafft 2019/20:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - Adroddiad:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynllun Llifogydd Cymunedol Bryncrug:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dweud mai un gwirfoddolwr yn unig sydd yn rhan o'r cynllun llifogydd ym Mryncrug, byddai angen recriwtio rhagor o wirfoddolwyr er mwyn i'r cynllun barhau a gofynnwyd am gymorth y cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu darn ar gyfer Dail Dysynni er mwyn denu gwirfoddolwyr, gan hefyd ei roi ar Facebook, Cambrian News a dylunio poster.

13. Trafodaeth ar ddefnydd y Gwasanaeth Tân ac Achub ar Ffordd Cefn Coed:

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio Ffordd Cefn Coed, gan barcio ar ochr y ffordd ac yn profi eu offer drwy bwmpio dŵr o'u tanciau i'r afon. Mynegwyd pryder bod twll yn datblygu yn y ffordd ble mae'r injan dân yn parcio ac yn ymarfer.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Brif Beiriannydd Ardal Meirionnydd Cyngor Gwynedd er mwyn ei hysbysu o bryder y cyngor ac er mwyn gofyn iddo gynnal arolwg o'r ffordd. Gan hefyd anfon copi o'r llythyr at Gyfoeth Naturiol Cymru.

14. Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys giatiau:

Adroddwyd bod postyn giât fach wedi torri ar lwybr cerdded ger Cil y Parc.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at y Rheolwr Hawliau Tramwy Ardal Meirionnydd er mwyn ei hysbysu o'r polyn giât sydd wedi torri.

15. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod y Cynghorydd Bethan Lawton wedi mynychu cyfarfod yng Nghaernafon gyda swyddogion Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Yr oedd model newydd Cyngor Gwynedd yn golygu y byddai Cyngor Gwynedd yn cyflogi 20 o weithwyr ieuenctid, gyda'r drefn o bartneru gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn golygu bod Cyngor Gwynedd angen 50 aelod o staff ychwanegol.

Cafwyd wybod bod Cyngor Gwynedd yn ei chael yn anodd recriwtio y 50 aelod o staff ar gyfer clybiau ieuenctid cymunedol., gan yr oedd polisi newydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor oedd yn gofyn am sgiliau siarad a darllen yn y Gymraeg. Yr oedd cyfweliadau ar gyfer Clwb Ieuenctid Bryncrug wedi ei canslo gan nad oedd yr ymgeiswyr yn medru'r Gymraeg i'r safon ddisgwyliedig.

Adroddwyd bod y model newydd wedi cychwyn, gyda chwe wythnos o weithgareddau yn Nhywyn ac yn Aberdyfi. Byddai'r gweithgareddau yn cyrraedd Bryncrug ar ôl y Nadolig. Cafwyd hefyd wybod mai treial yr oedd cydweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref, gyda'r treial i fod am flwyddyn.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn i Gyngor Gwynedd hysbysebu'r swyddi eto, gan ddefnyddio Dail Dysynni fel ffordd o hysbysebu'r swydd. I ofyn am 7/01/19 fel dyddiad cau er mwyn caniatáu amser i'r hysbyseb ymddangos yn y Dail.
Cyngor Cymuned Bryncrug i ddatgan ei siomedigaeth bod diffyg ymgeiswyr ar gyfer y swyddi oherwydd polisi iaith Cyngor Gwynedd.
I ystyried opsiynau eraill pe na fyddai ymgeiswyr addas, er enghraifft Clwb y Ffermwyr Ifanc, Cyngor Cymuned Bryncrug i gyflogi neu yr Urdd, gan ofyn i'r Urdd ganolbwyntio ar chwaraeon yn hytrach na sefydlu Aelwyd yr Urdd.

16. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nid oedd dim i'w nodi o safbwynt y cae. Nodwyd nad oedd y Clwb Pêl-droed wedi talu eu anfonebau.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed y cae.
I anfon datganiad i'r Clwb Pêl-droed yn dangos pa anfonebau sydd heb eu talu.

17. Cae Chwarae - dyfynbrisiau:

**PENDERFYNIAD:** I beisio symud ymlaen i atgyweirio y Pafiliwn nes mae'r Clwb Pêl-droed wedi talu eu hanfonebau, gan nad oedd gan y Cyngor yr arian i gwblhau yr holl waith heb yr arian.
I gysylltu gyda'r Clwb Pêl-droed er mwyn egluro'r sefyllfa parthed gwella ac atgyweirio'r Pafiliwn, gan ofyn iddynt dalu'r anfonebau am ddefnydd o'r cae a'r Pafiliwn.

18. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Coeden Nadolig wedi ei drefnu
- Aelod o'r cyhoedd yn pryderu am enw Ffordd Cefn Coed

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Clerc i gysylltu gyda'r Peiriannydd Ardal Meirionnydd parthed arwydd Cefn Coed.

19. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd mater brys i'w godi.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:35pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................